Rhoddodd y Cadeirydd ddarlun cyffredinol o'i weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf, gan dynnu sylw at y canlynol yn arbennig:

- Cynhaliwyd ymweliad defnyddiol iawn â'r safle cyn y cyfarfod hwn. Roedd yn gyfle i ymweld ag ardaloedd newydd, a chafwyd eglurhad manwl o ddatblygiadau a gweithgarwch ar y safle. Cafodd y daith o amgylch y safle ei disgrifio fel yr un orau erioed.
- Cynhaliwyd digwyddiad i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion Grwpiau Rhanddeiliaid Safle yn Llundain ar 7-8 Ebrill 2019. Dangoswyd llawer o ddiddordeb mewn datgomisiynu parhaus.
- Dyma fydd cyfarfod olaf y Cyfarwyddwr Cau Safle presennol, Mr Edward Selden. Cyfeiriodd y Cadeirydd at agwedd gwrtais a phroffesiynol Mr Selden, a dymunodd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.
- Cafodd Angharad Rayner ei llongyfarch ar gael ei phenodi'n Gyfarwyddwr Cau Safle newydd, a bydd yn dechrau ar y swydd ar 1 Medi 2019.
- Bydd Uwchgynadledd Flynyddol yr NDA yn cael ei chynnal ar 9–10 Gorffennaf yn y ganolfan peirianeg newydd yng Ngholeg Menai Llangefni.

#### **5. Adroddiad Cyfarwyddwr Cau'r Safle – Edward Selden**

Diolchodd Edward Selden i'r Cadeirydd am ei eiriau caredig, a dywedodd ei fod wedi mwynhau ei gyfnod yn Nhrawsfynydd, a fydd yn dod i ben ddiwedd mis Awst 2019.

Cyflwynodd ei adroddiad fel Cyfarwyddwr Cau'r Safle ar gyfer y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Mai 2019, gan roi sylw i'r canlynol yn arbennig:

#### **Trosolwg**

- Mae cynnydd da wedi cael ei wneud mewn nifer o elfennau, ac mae'r safle mewn sefyllfa dda i barhau i wneud hynny.
- Croesawyd nifer o grwpiau a oedd â diddordeb mewn cyfleoedd i ailddatblygu'r safle yn y dyfodol, ac rydym wedi dangos yn gyson ein bod yn gallu cyflawni'r orchwyl bresennol yn ddiogel a'n bod yn safle ymarferol ar gyfer busnes yn y dyfodol.
- Bydd contract presennol Cavendish Fluor Partnership â'r NDA yn dod i ben ddiwedd mis Awst.

#### **Trosolwg o Ddiogelwch**

Mae Cyfradd Digwyddiadau Cofnodadwy (TRIR) a chyfradd Achosion Diwrnod i Ffwrdd (DACR) y safle'n dal ar sero, ac mae nifer y triniaethau cymorth cyntaf ar y safle'n dal yn isel. Mae'r berthynas â Chynrychiolwyr Diogelwch Undebau Llafur y safle'n dal yn iach, ac rydym yn cydweithio i oresgyn unrhyw broblemau. Mae'r sesiynau briffio wythnosol yn dal i gynnwys gwybodaeth am ymgyrchoedd fel Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl, Ffyrdd Iach o Fyw ac ymgyrchoedd diogelwch Targed Sero.

Ym mis Ionawr, cafodd y safle Archwiliad Diogelwch Tân gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, ac roedd yr Arolygydd Diogelwch Tân yn fodlon bod y safle'n rheoli diogelwch tân mewn ffordd gyfrifol.

Ym mis Chwefror, cynhaliodd y safle Weithdy Asesu Risg, o dan arweiniad Pennaeth Proffesiwn Diogelwch y cwmni.

Mae tîm Diogelwch y Safle hefyd wedi bod yn gweithio i fireinio'r diffiniad o Berchnogaeth dros Ardal ar safle datgomisiynu, a'r drefn ar gyfer gadael ardaloedd o'r safle sydd ddim yn cael eu defnyddio mwyach heb i hynny effeithio ar y prosesau diogelwch tân.

### **Sicrhau Ansawdd a Goruchwyliaeth**

Mae'r safle'n cefnogi cynlluniau'r cwmni i wella'r drefn rheoli cofnodion, drwy roi hyfforddiant i Berchnogion Asedau Gwybodaeth.

I gefnogi amcan yr NDA i reoli'r holl Gofnodion Niwclear mewn un Archif, mae'r safle hefyd wedi cychwyn ar brosiect i sganio a symud cofnodion sy'n cael eu cadw am gyfnod hir i Wick ger Caithness.

Mae pob archwiliad o dan arweiniad y safle sy'n rhan o'r Rhaglen CAIR wedi cael ei gwblhau.

Mae ad-drefnu'r swyddogaeth Sicrhau Ansawdd wedi arwain at gydweithio'n well ag adrannau eraill a mwy o ymwybyddiaeth o ofynion Sicrhau Ansawdd.

Mae cymorth rhanbarthol OEF yn gweithio'n dda, gydag arweinwyr tîm, staff a chontractwyr wedi cael hyfforddiant 'Q-Pulse'.

### **Y Cynnydd o ran Datgomisiynu**

#### **Y Rhaglen Peiriannau a Strwythurau**

Mae'r prosiect tynnu peiriannau a dymchwel pyllau ym Mhecyn Gwaith 1 wedi bod yn datblygu'n dda dros y misoedd diwethaf.

Mae'r gwaith ar gam cyntaf prosiect System Monitro'r Safle wedi'i gwblhau erbyn hyn. Bydd System Monitro'r Safle yn uwchraddio'r seilwaith larwm presennol a fydd yn helpu'r broses ddatgomisiynu, a bydd hefyd yn bodloni'r gofynion monitro yn ystod y Cam Gofal a Chynnal a Chadw.

### **Prosiect Paratoi at Ostwng Uchder**

Mae'r broses gaffael yn mynd rhagddi i gwblhau'r gwaith paratoi cyn cychwyn ar y prif waith i ostwng uchder adeiladau'r storffeydd diogel.

### **Cyfleuster Trin Gweddillion Elfennau Tanwydd y Gogledd (NFED)**

Mae gwaith adfer FED y Gogledd yn dod ymlaen yn dda, gyda dros 33 tunnell o Wastraff Lefel Ganolraddol (ILW) wedi cael ei adfer hyd yma. Mae'r tîm wedi llwyddo i wagio chwech o'r 16 o gelloedd o wastraff swmp erbyn hyn, ac wedi agor dwy gell arall ar gyfer y gwaith adfer. Mae'r tîm hefyd wedi treialu patrwm gweithio newydd lle mae staff yn cychwyn gweithio ar adegau gwahanol i gynyddu'r amser sy'n cael ei dreulio'n adfer gwastraff yn y cyfleuster bob wythnos, er mwyn cynyddu mewnbwn y broses weithredol.

### **FEDER – Cyfleuster Trin Gweddillion Elfennau Tanwydd y De (SFED)**

Dros y chwe mis diwethaf, mae tîm FEDER wedi bod yn bwrw ymlaen â gweithgareddau Comisiynu Anweithredol (NAC) SFED; mae gweithdrefnau'r Ardal Adfer ac Ardal Proses wedi cael eu cwblhau, ac mae'r tîm wrthi'n cwblhau'r cam NAC Integredig ar hyn o bryd.

Mae'r rhaglen yn dal ar y trywydd iawn i gwblhau'r gwaith NAC ac i ddechrau ar y cam Comisiynu Gweithredol ym mis Mehefin 2019.

### **Gweithrediadau Gwastraff**

Mae sbectromedr gama cydraniad uchel newydd y safle wedi cael ei gomisiynu'n llwyr erbyn hyn, a disgwylir y bydd y broses o anfon llwythi gwastraff lefel isel yn aildechrau ym mis Mehefin 2019.

Mae'r tîm Gweithrediadau Gwastraff hefyd wedi cael ei ad-drefnu er mwyn rhannu adnoddau rhwng tair elfen waith wahanol sy'n ymwneud â gweithrediadau gwastraff lefel isel, gwastraff sydd angen triniaeth ychwanegol a'r tîm tynnu peiriannau a strwythurau. Bydd hyn yn golygu bod modd defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon ar draws y safle, a pharhau i gyflawni ein gorchwyl.

### **Cerrig Milltir o ran Gwastraff**

#### **Y Brif Gromell Slwtsh (MSV) a'r Cyfleuster Caledu Gwastraff Lefel Ganolraddol Cludadwy (TILWSP)**

Mae'r pecyn gwastraff lefel ganolraddol terfynol o'r brif gromell slwtsh wedi cael ei adfer, ei osod (45), ei amgáu a'i roi yng Nghyfleuster Storio Interim y safle i gael ei storio drwy ddulliau goddefol.

### **Gwastraff sydd angen Triniaeth Ychwanegol (WRAT)**

Mae'r gwaith comisiynu wedi'i gwblhau o ran yr adeilad modwlar newydd sydd wedi'i wneud o blastig a atgyfnerthwyd â gwydr, ac sydd wedi'i godi o fewn y storfeydd gwastraff gweithredol (AWV), ac mae 32 drwm gwastraff lefel ganolraddol wedi cael eu hailbroseu hyd yma.

### **Pobl**

Cyfarfu Cyd-Gyngor Safleoedd Rhanbarthol Cymru ym mis Ebrill, a buom yn trafod cyfleoedd i helpu safleoedd ein gilydd i rannu sgiliau ac adnoddau.

Mae Rhaglen Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) Magnox yn dal i gael ei hybu drwy'r calendr EDI sydd ar gael i bawb drwy fewnrwyd Magnox. Mae Swyddogion Cymorth Cyntaf ar gyfer Iechyd Meddwl yn dal i gael eu hyrwyddo ar y safle fel cymorth ychwanegol i weithwyr sydd am drafod unrhyw faterion/pryderon yn breifat.

Mae Tîm Arweiniol Trawsfynydd wedi bod yn treulio amser yn ôl yn y gweithle, gan ymuno â gwahanol grwpiau gwaith er mwyn cael gwell dealltwriaeth o broblemau a llwyddiannau yn y gwaith, rhannu gwybodaeth ac adeiladu ar y berthynas waith dda sydd gennym yn barod.

Mae'r gweithlu presennol yn cynnwys 191 o bobl i gyd – 128 o weithwyr Magnox, 51 o Weithwyr a Gyflenwyd gan Asiantaeth a 12 o Weithwyr a Gyflenwyd ar Gontract.

### **Diogelwch amgylcheddol**

#### **Digwyddiadau amgylcheddol**

Mewn ymateb i bedwar achos o dorri amodau trwydded a gofnodwyd drwy Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2018, mae'r safle wedi cyflawni'r ddau argymhelliad drwy ddangos bod y system monitro simneiau nwyol sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd yn cynrychioli'r Dechneg Orau sydd Ar Gael, a drwy roi cyfle i Asiantaeth yr Amgylchedd – ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru – adolygu sut mae gweithgareddau rheoli asedau'n cael eu rheoli, er mwyn cydymffurfio â gofynion y drwydded.

Does dim achosion eraill o dorri amodau trwydded wedi cael eu cofnodi yn safle Trawsfynydd.

### **Gollyngiadau amgylcheddol**



Mae'r safle wedi cynnal lefel y gollyngiadau i'r amgylchedd ar lefelau isel iawn, yn sylweddol is na'r terfynau blynyddol a ganiateir.

### **Diogelwch radiolegol**

Mae'r holl ddognau fel y'u rhagfynegwyr ac mor isel ag sy'n ymarferol resymol (ALARP).

### **Trefniadau mewn argyfwng**

Mae'r holl drefniadau mewn argyfwng wedi'u hen sefydlu, wrth i ni agosáu at ddwy flynedd ers y cyfnod 'Pontio Oddi ar Sifftiau'. Mae ymarferion wrth gefn yn cael eu cynnal gyda chontractwyr/staff drwy gydol y flwyddyn.

Mae rhaglen fisol o ymarferion byw a bach, sydd ar waith ers dechrau'r flwyddyn, wedi bod yn fuddiol iawn o ran sefydlu ein trefniadau.

Pennwyd bod ymarfer diogelwch y safle, a gynhaliwyd ddydd Mercher 27 Mawrth, yn ddigonol. Ond, cafodd y safle adborth cadarnhaol ar bob elfen gan y tîm MSO.

Bwriedir cynnal ymarfer arddangos diogelwch ar gyfer y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear ym mis Mehefin/Gorffennaf 2019.

### **Ymweliadau Safle**

Cafwyd pedwar ymweliad yn ymwneud ag Ardal Fenter Eryri yn ystod y cyfnod adrodd.

Roedd y safle hefyd wedi croesawu dirprwyaeth o ymwelwyr o Japan a oedd yn cynrychioli Japco a Tepco ar 14 Mai, a grŵp o staff sy'n gweithio yn y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear ar 21 Mai.

Holodd y Cynghorydd Meredydd Williams am y sefyllfa a'r amserlen o ran tynnu asbestos o adeiladau ar y safle. Dywedodd Edward Selden y bydd cam nesaf y gwaith tynnu asbestos yn dechrau ym mis Medi 2019, ond y bydd lefelau bach o asbestos yn dal yno, gan na fydd hynny'n achosi perygl afresymol i'r gweithlu.

## **6. Adroddiad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear**

Croesawyd Ian Dallas i'r cyfarfod, a rhannodd yr wybodaeth ganlynol:

### **Arolygiadau**

Roedd arolygwyr y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear wedi cynnal arolygiadau ar y dyddiadau canlynol yn ystod y cyfnod adrodd:

19 – 20 Tachwedd 2018

15 – 16 Ionawr 2019

12 Chwefror 2019

25 Mawrth 2019

### **Materion arferol**

Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliodd y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear yr arolygiadau canlynol yn Nhrawsfynydd:

LC 9 Cyfarwyddiadau i bobl ar y safle

LC 14 Dogfennau diogelwch

LC 15 Adolygiad cyfnodol

LC 17 Systemau rheoli

LC 25 Cofnodion gweithredol

LC 32 Crynhoad o wastraff ymbelydrol

Yn gyffredinol, roedd y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear o'r farn bod y trefniadau a gafodd eu gwneud a'u rhoi ar waith gan y safle yn ddigonol ar gyfer yr elfennau a arolygwyd. Ond, pan

oedd angen gwneud gwelliannau, roedd deiliad y drwydded wedi gwneud ymrwymiadau boddhaol i fynd i'r afael â'r materion, a bydd arolygydd y safle'n monitro'r cynnydd yn ystod ymweliadau yn y dyfodol.

### **Gwaith arall**

Fel rhan o'r ymweliad ym mis Ionawr, cynhaliodd arolygydd y safle arolygiad parodrwydd er mwyn rhyddhau pwynt dal rheoleiddiol a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith o ddechrau comisiynu SFED y gweithrediadau adfer yn weithredol.

### **Materion nad ydynt yn arferol**

Nid oedd unrhyw faterion o'r fath na digwyddiadau o bwys i'w nodi yn ystod y cyfnod.

### **Gweithgarwch Rheoleiddiol**

Ni chyhoeddwyd unrhyw Offerynnau Trwydded na Rhybuddion Gorfodaeth yn ystod y cyfnod:

Diolchwyd i Ian Dallas am fod yn bresennol ac am ei gyflwyniad.

### **7. Adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru**

### **8. Adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd**

Cafodd y ddwy eitem uchod ar yr agenda eu cyflwyno gan Mike Baggs o Asiantaeth yr Amgylchedd. Dywedodd fod yr adroddiad yn rhoi sylw i'r cyfnod rhwng 3 Rhagfyr 2018 a 21 Mai 2019, ac fe aeth ati i'w grynhoi fel a ganlyn:

### **Prif Reoleiddiwr Niwclear newydd**

Mike Baggs yw'r Prif Reoleiddiwr Niwclear erbyn hyn. Richard Clarke oedd yn arfer ysgwyddo'r rôl hon ers 2014. Mae Richard yn dal yn ymwneud â'r gwaith rheoleiddio yn Nhrawsfynydd, o ran rhoi GRR ar waith a gwaith datblygu'r cyflwr terfynol; fodd bynnag, Mike Baggs yw'r prif reoleiddiwr cyswllt erbyn hyn, gyda Julia Frost o Cyfoeth Naturiol Cymru.

### **Rheoleiddio sylweddau ymbelydrol**

Rydym yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r trwyddedau amgylcheddol drwy gynnal arolygiadau rheolaidd. Mae'r rhain yn cael eu cofnodi ar "Adroddiadau Asesu Cydymffurfiaeth Sylweddau Ymbelydrol" (RASCARs), sy'n cael eu rhoi ar y Gofrestr Gyhoeddus.

### **Gollyngiadau ymbelydrol**

Mae'r holl oollyngiadau ymbelydrol yn Nhrawsfynydd yn dal o fewn y terfynau a bennwyd yn ein trwydded sylweddau ymbelydrol.

### **Monitro amgylcheddol**

Mae'n ofynnol i Magnox Ltd wneud gwaith monitro amgylcheddol arferol o dan ei drwydded sylweddau ymbelydrol. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd (ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru) hefyd yn ymgymryd â rhaglen annibynnol o fonitro amgylcheddol ar draws Cymru a Lloegr. Mae canlyniadau diweddar y ddwy raglen yn cyd-fynd yn fras â chyfnodau blaenorol, ac nid ydynt yn dangos unrhyw beth sy'n destun pryder.

### **Gweithgarwch Gorfodi**

Ni wnaed unrhyw weithgarwch gorfodi yn ystod y cyfnod adrodd.

### **Arferion da a materion rheoleiddio ar hyn o bryd**

Cynhaliwyd ymweliadau arolygu arferol ym mis Rhagfyr 2018 a mis Mawrth 2019. Ni chofnodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio.

Cafodd Arolygiad Thema ynghylch “Gwastraff Gweithgarwch Uchel” ei gynnal yn ystod ymweliad pellach ym mis Mawrth 2019. Cafodd ei gynnal ar y cyd â'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear: o'n safbwynt ni, roedd y trefniadau rheoli Gwastraff Gweithgarwch Uchel yn Nhrawsfynydd yn gadarn, yn dilyn gweithdrefnau Magnox ac yn cyd-fynd â'r canllawiau rheoleiddio ar y cyd. Ni chafodd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio eu nodi yn ystod yr arolygiad, ond fe wnaethom gofnodi 2 Argymhelliad (y dylai'r safle roi sylw iddyn nhw er mwyn osgoi diffyg cydymffurfio yn y dyfodol), a 10 Sylw i'w hystyried gan y safle. Byddwn ni'n delio â'r rhain fel rhan o'n gwaith rheoleiddio arferol yn ystod FY19/20, ar y cyd â chydweithwyr perthnasol.

Byddwn ni'n dal i roi sylw manwl i'r lefelau staff: bod staff y safle yn amlwg yn Bobl sydd â Phrofiad a Chymhwyster Addas, a bod digon ohonyn nhw, heb orfod dibynnu ar unigolion.

Gofynnodd y Cynghorydd John Richards am fanylion y ddau argymhelliad ynghylch rheoli Gwastraff Gweithgarwch Uchel. Dywedodd MB eu bod yn ymwneud â chynnal y gofrestr Rheoli Gwastraff Ymbelydrol, a'r angen i ddiweddarau gwybodaeth. Cytunodd i rannu manylion yr argymhellion â'r aelodau os bydd angen.

## **9. Adroddiad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear – Jonathan Jenkin**

Croesawyd Jonathan Jenkin i'r cyfarfod a rhoddodd grynodedb o adroddiad yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA), gan dynnu sylw at y canlynol yn arbennig:

Mae'r NDA wedi cyhoeddi mai Gwen Parry-Jones OBE sydd wedi cael ei phenodi'n Brif Swyddog Gweithredol Magnox Cyf. Mae'r penodiad yn gam pwysig tuag at Magnox Cyf. yn dod yn is-gwmni i'r NDA ym mis Medi 2019, pan fydd Ms Parry-Jones yn dechrau yn ei swydd yn swyddogol. Mae hi'n ymuno â Magnox ar ôl bod yn Gyfarwyddwr Gweithredol Datblygiadau Gweithredol gyda Pŵer Niwclear Horizon. Dechreuodd ar ei gyfa fel ffisegydd adweithyddion yng ngorsaf bŵer Wylfa, a hi oedd Cyfarwyddwr Gorsaf Heysham 1, y fenyw gyntaf yn y DU i redeg gorsaf bŵer niwclear.

Mae Cynllun Busnes yr NDA wedi cael ei gyhoeddi yn dilyn cyfnod ymgynghori o 12 wythnos a ddaeth i ben ym mis Chwefror. Mae'r Cynllun yn nodi gweithgareddau allweddol a'r cynnydd a ddisgwylir ar gyfer 17 safle niwclear yr NDA yn ystod y 3 blynedd nesaf, yn ogystal â rhagolygon o ran incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae is-gwmni Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yr NDA nawr wedi dechrau chwilio am gymuned a fyddai'n fodlon derbyn Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn y dyfodol. Mae'r broses yn dechrau ar ôl cyhoeddi datganiad y llywodraeth ar sut mae'n bwriadu gweithio gyda chymunedau â diddordeb.

Gofynnodd y Cynghorydd David Meredith Williams a fydd argymhellion yr Achos Busnes yn dibynnu ar y Trysorlys. Cadarnhaodd Jonathan Jenkin fod hynny'n wir, ond dywedodd hefyd y gallai hyn arwain at fuddion o ran costau yn y tymor hir.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Gareth Thomas at y cydweithio cadarnhaol rhwng yr NDA a'r Adran Datblygu Economaidd yng Nghyngor Sir Gwynedd, ar ôl iddo fod mewn digwyddiad gan yr NDA yn y Senedd ar 5 Mehefin.

Gofynnodd y Cynghorydd John Richards pryd y byddai Adroddiad Holliday yn cael ei gyhoeddi. Atgoffodd Jonathan Jenkin yr aelodau fod oedi gyda'r adroddiad hwn oherwydd adolygiad barnwrol. Dywedodd y bydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal yr wythnos hon, ond nad oedd yn ymwybodol o'r canlyniad heddiw.

## 10. Diweddariad am Gyflwr Terfynol y Safle – Ian Warner

Croesawyd Ian Warner i'r cyfarfod, a rhoddodd gyflwyniad ar Gyflwr Terfynol y Safle. Eglurodd y camau sydd wedi cael eu cymryd hyd yma, a'r camau nesaf fel a ganlyn:

### Y Cyd-destun Rheoleiddio

Chwefror 2016	Canllawiau drafft newydd gan yr Awdurdodiadau Amgylcheddol (Cyfoeth Naturiol Cymru) ar eu gofynion i ryddhau safleoedd rhag rheoliadau ('GRR')
2016-17	Treialu'r broses o ddefnyddio 'GRR' drafft yn Winfrith (Dorset) ac yn Nhrawsfynydd
Gorffennaf 2018	Yr Awdurdodiadau Amgylcheddol yn cyhoeddi'r 'GRR' ffurfiol. Mae'n egluro agwedd rheoleiddwyr at waith 'optimeiddio' sy'n berthnasol i gyflwr terfynol a gwaredu gwastraff ymbelydrol ar y safle.
Hydref 2018	Ymateb Llywodraeth y DU (BEIS) i'r ymgynghoriad ar ddiwygio'r ddeddfwriaeth niwclear sy'n berthnasol i gamau terfynol y broses ddatgomiynu. Mae'r Gweinidog yn 'bwriadu' derbyn y newidiadau arfaethedig, ac felly tybir y byddan nhw'n rhan o bolisi'r Llywodraeth. Yn dal i aros am 'slot y bil' i ddiwygio'r ddeddfwriaeth.
Ebrill 2019	Amodau trwydded drafft newydd Cyfoeth Naturiol Cymru: Rhaid i Magnox ddangos y bydd yn defnyddio'r dull gorau posib i waredu'r holl wastraff datgomiynu hyd at y Cyflwr Terfynol. Rhaid i Magnox ddangos y bydd yn defnyddio'r dull gorau posib i waredu unrhyw wastraff ymbelydrol ar y safle.
Parhaus	Trafod pryd mae angen i Magnox fodloni'r gofynion uchod ar gyfer y drwydded.

### Newid arfaethedig i'r Strategaeth

Treial Arwain a Dysgu – Mae gwaredu ar y safle yn dechnegol bosib.

Cais am drwydded neu i ddymchwel cyn y cam Gofal a Chynnal a Chadw ar gyfer rhai nodweddion.

Ar sail y gwaith hyd yn hyn:

Ni chredir bod y strategaeth bresennol yn cynrychioli'r sefyllfa orau bosib o ran y Cyflwr Terfynol

Mae Cyflwr Terfynol sy'n cynnwys rhywfaint o waredu ar y safle yn opsiwn gwell

Papur newid y strategaeth i'r NDA ym mis Mawrth 2019

Sêl bendith i ddatblygu opsiwn neu opsiynau eraill

### Posibilrwydd o waredu ymbelydredd o safle datgomiynu

- Y strategaeth newydd yw tynnu adeiladau'r pyllau i lawr i lefel y tir, a gwaredu'n gynnar ar y safle cyn y cam Gofal a Chynnal a Chadw.
- Cwblhau'r gwaith o ddymchwel y strwythur pyllau ar wyneb y tir
- Gadael rhai nodweddion sydd yn y ddaear yn barod fel y maen nhw
- Mae'r gwaith dymchwel ar adeilad y pyllau yn debygol o ddechrau yn 2023/4
- Byddai'r gwaith i leihau uchder yn dal i fynd rhagddo
- Fyddai storfa'r gwastraff lefel ganolraddol ddim yn newid
- Byddai'r model pum blwch yn newid yn ôl i fodel tri blwch

Wrth grynhoi, dywedodd mai'r unig beth mae newid y Strategaeth yn ei wneud yw rhoi sêl bendith i fynd ati i ddatblygu'r opsiwn neu'r opsiynau, ac nad yw o reidrwydd yn cadarnhau beth fydd yn digwydd yn y pen draw. Bydd angen:

- Achos busnes manwl sydd wedi'i ategu gan ddyluniad manwl
- Mwy o waith datblygu technegol – faint ac ym mha drefn
- Ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid

- Datblygu ceisiadau ar gyfer y drwydded a'r caniatâd cynllunio
- Gwneud y gwaith – mae'n debygol y bydd y prif waith dymchwel yn cael ei wneud yn 23-25

Roedd y Cyngorydd Meredith Williams am bwysleisio pa mor bwysig yw cael proses gadarn i ymgynghori â'r cyhoedd. Cadarnhaodd Ian Warner fod gofynion statudol ar gyfer ymgysylltu'n helaeth, ond bod angen dod i gytundeb ynghylch hynny.

Diolchwyd i Ian Warner am fod yn bresennol ac am ei gyflwyniad.

### **11. Diweddariad ynghylch Pŵer Niwclear Horizon – Ifer Gwyn**

Croesawyd Ifer Gwyn i'r cyfarfod, a chytunodd i ddymuno'n dda i Richard Foxhall ar ran yr aelodau.

Rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am sefyllfa Wylfa Newydd yn Ynys Môn. Dywedodd fod y prosiect wedi'i ohirio am y tro, yn dilyn penderfyniad y partion ariannu. Mae'r gwaith ar y safle wedi lleihau am y tro, gyda staff yn cael eu colli ar y safle. Mae 45 o bobl yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd, a bydd hyn yn lleihau i 15 erbyn diwedd mis Mehefin.

Mae'r trafodaethau'n parhau â Llywodraeth Cymru. Bydd gweithgareddau'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) yn parhau, a disgwylir y bydd penderfyniad cynllunio wedi'i wneud erbyn mis Hydref 2019. Os gellir dod i gytundeb am ariannu yn y dyfodol, bydd modd ailddechrau'r prosiect mewn da bryd.

Gofynnodd Iestyn Pritchard beth fydd yn digwydd os na fydd y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn cael ei gymeradwyo. Cadarnhaodd Ifer Gwyn y bydd y tir yn cael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol unwaith eto os bydd hynny'n digwydd.

### **12. Cwmni Ynni Cymunedol Twrog – Dafydd Watts**

Doedd dim cynrychiolaeth yn bresennol.

### **13. Diweddariad am gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox – Mair Jones**

Croesawyd Mair Jones i'r cyfarfod, a rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun economaidd-gymdeithasol:

Yn 2018/19, cafodd 129 o sefydliadau gyllid drwy'r cynllun economaidd-gymdeithasol, a oedd yn dod i gyfanswm o £743,512. Roedd naw o'r rheini o gymunedau ger Trawsfynydd, a gafodd £115,000.

#### **Dyma rai o'r grwpiau sydd wedi elwa o'r arian:**

**Clwb Criced Dolgellau** – cafodd y Clwb £1,000 tuag at y gost o greu dau gyfleuster rhwydi ymarfer, a oedd yn costio £38,000. Mae'r clwb hefyd yn gadael i ysgolion lleol ddefnyddio'r cyfleuster.

**STEM Cymru, Prosiect Chweched Dosbarth Cynllun Addysg Beirianeg Cymru** – wedi derbyn £2,710. Fe wnaeth cyllid Magnox roi'r cyfle i grŵp o unigolion ifanc o Goleg Meirion Dwyfor weithio ar brosiect peirianeg fel rhan o gystadleuaeth genedlaethol.

#### **Dyma rai o'r ceisiadau trawsnewid mwy a gafodd eu cefnogi:**

**Y Bartneriaeth Awyr Agored** – wedi dechrau prosiect pum mlynedd gwerth £1.5m gyda £180,000 gan Magnox. Mae'r prosiect yn barhad o'r rhaglen lwyddiannus, Llwybrau i Waith, a gafodd ei hariannu gan yr NDA yn 2012. Roedd yn llwyddiannus iawn ac fe gafodd dros 500 o bobl swyddi yn ei sgil.

Gan weithio gydag Unedau Iechyd Meddwl ar Ynys Môn ac yng Gwynedd, bydd y datblygiad newydd hwn yn canolbwyntio ar wella cyfleoedd cyflogaeth pobl leol sydd â phroblemau iechyd meddwl, unigolion sydd ag anableddau, yn ogystal â dileu rhwystrau i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Bydd gwella'r mynediad at sesiynau sy'n rhoi blas ar weithgareddau awyr agored yn darparu rhagor o gyfleoedd i arweinwyr gwirfoddol, yn cefnogi clybiau cynhwysol lleol ac yn darparu cymwysterau gan Gorff Llywodraethu Cenedlaethol.

Mae Cyllid Magnox wedi cefnogi Swyddog Cynhwysiant, Swyddog Llwybrau i Waith a Swyddog Gwirfoddoli amser llawn.

**Prosiect STEM y Gogledd (£201,000 dros bedair blynedd)** – Mae'r prosiect yn datblygu'n dda yn ei ail flwyddyn. Mae Swyddog Cyllid a Monitro, Cydlynnydd yr Hyb a Chynghorydd Gwella Cynorthwyol wedi cael eu penodi. Ar ôl yr ymarfer Caffael, cafodd Cwmni Cynnal ei benodi i ddatblygu a darparu'r Hyb STEM. Mae'r Hyb bron yn barod, ac mae wedi dechrau ymddangos ar sianeli cyfryngau cymdeithasol. Cafodd y criw cyntaf i gymryd rhan yn y prosiect eu pennu fis Mawrth, a byddwn yn gweithio gyda'r Mentoriaid STEM o sefydliad Gyrfa Cymru. Bydd lansiad swyddogol y prosiect yn cael ei gynnal ym mis Hydref 2019 yn MSParc ar Ynys Môn.

Cafodd **Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llyn Tegid** ei sefydlu i arwain prosiect Draig Goch gwerth £1.8m i ymestyn y rheilffordd i mewn i ganol tref y Bala o Ben-y-bont. Bydd gorsaf newydd ac atyniad i ymwelwyr yn cael eu hadeiladu hefyd, a fydd yn cynyddu nifer yr ymwelwyr ac yn creu swyddi. Drwy weithio gyda'r prosiect, fe welodd Magnox gyfle i gyfrannu £23,00 tuag at ffioedd ymgynghori yn ystod y cam dylunio – yn benodol, gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnwys y rheilffordd fel rhan o'u cynllun nesaf i uwchraddio'r amddiffynfa rhag llifogydd ar hyd glan Llyn Tegid. Gan fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio ar y rheilffordd ar yr un pryd, bydd y rheilffordd yn arbed cannoedd o filoedd o bunnau. Mewn partneriaeth ag Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Tref y Bala, bydd y prosiect yn gwella amddiffynfa'r dref rhag llifogydd; yn gweithredu cerbydau newydd; ac yn rhoi budd economaidd i'r dref, y gymuned a'r rheilffordd. Mae'r rheilffordd eisoes yn atyniad mawr, ond bydd ymestyn pen y rheilffordd i mewn i dref y Bala ei hun yn cael effaith gadarnhaol enfawr ar yr ardal.

Mae cynllun Magnox yn darparu cyllid i gefnogi gweithgareddau sydd o fudd i fywyd cymdeithasol neu economaidd cymunedau, er mwyn cefnogi cyfrifoldebau'r NDA dan y Ddeddf Ynni (2004) i leihau effaith economaidd-gymdeithasol ei raglen waith yn yr ardaloedd lle mae'n gweithio. Mae gan y cynllun dri nod o ran cyllido:

1. Bod yn gymydog da
2. Helpu i greu cymunedau cynaliadwy
3. Cefnogi prosiectau trawsnewid sy'n lleihau effaith datgomiynu safleoedd Magnox.

I gael rhagor o wybodaeth am gyllid ewch i:

<https://magnox socioeconomic.com>

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch chi, cysylltwch â:

Michelle Humphreys ar gyfer ceisiadau hyd at £1,000 – 01407 733953

Neu Mair Jones ar gyfer ceisiadau dros £1,000 – 01407 7339

Roedd y Cadeirydd am ddiolch yn ffurfiol i Mair Jones a Magnox Ltd am weinyddu a darparu'r cyllid gwerthfawr hwn i gefnogi prosiectau lleol, ac anogodd yr aelodau i hyrwyddo'r gronfa yn eu hardaloedd. Dolen <https://magnox socioeconomic.com>

#### 14. Unrhyw fater arall

Gofynnodd y Cynghorydd John Richards a fyddai modd rhannu'r cofnodion â'r holl aelodau yn syth pan fyddan nhw ar gael, yn hytrach na'u rhannu gydag Agenda a phapurau ategol y cyfarfod nesaf sydd wedi'i drefnu.

**15. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

Dyddiad: 5 Rhagfyr 2019

Amser: 2pm

Lleoliad: Canolfan Gynadledda a Sefydlu Trawsfynydd

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb, a daeth â'r cyfarfod i ben am 3:50pm.

COPI DRAFFET